**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 13 Chwefror 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Lynda James oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | L S Gibbard | D W Helliwell |
| L James | J A Raynor | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
D Anderson-Thomas

**Mynychwyr eraill**
Cllr Jennifer Raynor

**Swyddog(ion)**
Nick Williams
Brian Roles
Michelle Roberts

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, M Durke, S J Gallagher, B Hopkins, S M Jones, L R Jones a/ac M Sykes

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Craffu ar y gyllideb flynyddol: am ei bod yn ymwneud â materion addysg**

Roedd y Cynghorydd Jennifer Raynor (Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), Nick Williams (Prif Swyddog Addysg) a Brian Roles (Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau) yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn cyflwyno cynigion y gyllideb gan eu bod yn berthnasol i faterion addysg.

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys (gyda chyfeiriad penodol at faterion addysg):

- Cynllunio ariannol tymor canolig 2019-20 i 2021-22
- Cyllideb Refeniw 2018/19
- Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/2019 - 2021/22

- Llythyr gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion

3 **Crynhoi barnau a gwneud argymhellion**

- Mae'r panel yn cefnogi'r cynigion mewn perthynas ag addysg a sut y dyrannwyd arian, gan ystyried y sefyllfa gyllidebol bresennol.
- Codwyd y mater o dderbyn cyllideb flwyddyn ar ôl flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig wrth ystyried yr angen i gynllunio gwasanaethau dros y tymor hwy (fel y cyfeiriwyd ato yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol). Mae'r panel yn cydnabod bod yr awdurdod yn datblygu cynllun tymor canolig 3 blynedd dangosol ond bydd hwn yn newid o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar ddyraniad yr awdurdod lleol gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r panel yn annog cynghorau i weithio gyda'i gilydd i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru o ran datblygu cynllun cyllideb tymor hwy. Roedd y panel hefyd yn awyddus i weld newidiadau'n cael eu gweithredu a fyddai'n lleihau oedi rhwng dyrannu grantiau gan Lywodraeth Cymru a derbyn yr arian hwnnw.
- Roedd gan y panel bryderon am yr effaith y bydd y gostyngiad gwerth 11% yn y grant gwella addysg yn ei chael ar wasanaethau cefnogi, yn enwedig y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, ond roedd yn falch o glywed bod yr awdurdod yn bwriadu llenwi'r bwlch ar gyfer rhai gwasanaethau gan ddefnyddio arian wrth gefn am flwyddyn.
- Clywodd y panel fod rhai ysgolion yn rheoli'r sefyllfa gyllidebol anodd yn well nag eraill: teimlodd y panel y byddai rhannu arfer da ar draws ysgolion mewn perthynas â'r agwedd hon yn fuddiol iawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00pm